LLWYDDO'N LLEOL

YN RHOI HWB I GYFLEOEDD GWAITH POBL IFANC

LLWYDDO'N LLEOL 2050

ENW: Elen ap Robert

LLEOLIAD: Y Felinheli, Gwynedd

Y BUSNES: Llofft Felinheli – hwb cymunedol

PAM AETH LLOFFT AT LLWYDDO'N LLEOL?

Rydyn ni'n teimlo yn angerddol am roi cyfleoedd i bobl ifanc yn yr ardal, wedi i ddau o'n plant ni sydd bellach yn oedolion, ddod yn ôl, ac roeddwn yn clywed y naratif bod diffyg cyfleoedd yn y gogledd. Felly, es i at Llwyddo'n Lleol i weld os oedd modd cael cefnogaeth i ni allu darparu'r cyfleoedd i bobl ifanc yma.

BETH OEDD Y CANLYNIAD?

O ganlyniad i gefnogaeth Llwyddo'n Lleol, rydyn ni wedi gallu cyflogi pum person i weithio ar brosiectau penodol er mwyn datblygu eu sgiliau proffesiynol yn ogystal â gweithio i Llofft, sef: Rhys, Leah, Dion, Daniel a Manon.

Mae Rhys wedi bod yn gweithio fel barista a blaen tŷ, a rŵan yn trefnu *pop ups* bwyd ac yn dysgu i fod yn gogydd, sydd wedi cynnwys dysgu gan fwyty Crwst yn Aberteifi. Mae Dion, sydd wedi bod yn cefnogi gwaith hyrwyddo Llofft, wedi cael y cyfle i greu ffilmiau o ddigwyddiadau fel gigs i ddenu mwy a mwy o bobl ifanc gan roi'r cyfle iddyn nhw gyfarfod â'i gilydd. Mae Leah yn trefnu digwyddiadau tebyg i *supper clubs*, tra mae Daniel wedi datblygu brand Llofft a rŵan yn addasu'r wefan. Mae Manon am greu mirlun ar ein wal anferth gan ddatblygu ei hymarfer creadigol ar raddfa fawr.

PA EFFAITH MAE HYN WEDI EI GAEL?

Er bod ni'n fuan yn yr amserlen o weithredu'r cynllun, rydyn ni'n gweld budd yn barod. Mae'r pump wedi datblygu sgiliau gwahanol, ac ella na fydden nhw wedi datblygu'r sgiliau yma heb gefnogaeth elfen Gyrfaol Llwyddo'n Lleol. Yn ogystal mae'r gymuned a phobl ifanc yma yn gweld budd o gael mwy o ddigwyddiadau yn mynd ymlaen.

Rydyn ni hefyd yn gallu cynnig y digwyddiadau a'r gwasanaethau yma drwy'r Gymraeg, sydd yn hollbwysig i ni er mwyn tynnu pobl i mewn a chadw pobl ifanc yma.

ARFOR
CREU GWAITH - CEFNOGI'R IAITH

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government